# [DRAFFT] Ymrwymiad i Ymgynghori â'r Gymuned

Prosiect Ynni Gogledd Brechfa,
Sir Gaerfyrddin

Gorffennaf 2016

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Gwybodaeth am y ddogfen hon | t.1 |
| 2 | Prosiect Ynni Gogledd Brechfa | t. 2 |
| 3 | Ymrwymiad i Ymgynghori | t. 4 |
| 4 | Cyfundrefn Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) | t.5 |
| 5 | Ymgyngoreion | t. 7 |
| 6 | Cynllun Ymgynghori | t. 10 |
| 7 | Sut i Gysylltu â Chwmni RES a Thîm y Prosiect | t.16 |

# 1 Gwybodaeth am y ddogfen hon

Mae'r Ymrwymiad i Ymgynghori â'r Gymuned yn nodi sut y bydd RES – un o brif gwmnïau ynni adnewyddadwy annibynnol y byd – yn ymgynghori â'r gymuned leol ar Brosiect Ynni arfaethedig Gogledd Brechfa yn Sir Gaerfyrddin, ger pentrefi New Inn, Llanllwni a Gwernogle.

Mae gan RES brofiad ym maes datblygu prosiectau adnewyddadwy, ac mae'n credu bod ymgynghori â'r gymuned yn rhan hanfodol o'r broses. Mae proses gynhwysfawr sy'n ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid yn gynnar yn arwain at drafodaeth ar sail gwybodaeth sy'n ein helpu i nodi pryderon, archwilio atebion a chynllunio prosiect effaith isel a fydd yn cael ei groesawu fel ased cadarnhaol i'r gymuned leol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd RES yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar Brosiect Ynni Gogledd Brechfa, a sut y gall cymunedau, trigolion, busnesau a grwpiau buddiant lleol, ynghyd â'r cyhoedd, weld y cynlluniau'n datblygu a chynnig sylwadau arnynt.

Dylid trin y ddogfen hon fel dogfen weithio a fydd yn cael ei diweddaru a'i gwella yn dilyn sylwadau ac awgrymiadau gan randdeiliaid yn ystod y broses ymgynghori a rhaglen gyffredinol y prosiect.

## 2 Prosiect Ynni Gogledd Brechfa

Mae RES, un o brif gwmnïau ynni adnewyddadwy annibynnol y byd, wedi dechrau ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu prosiect ynni adnewyddadwy i'r gogledd o Goedwig Brechfa yn Sir Gaerfyrddin. **Prosiect Ynni Gogledd Brechfa** yw enw'r datblygiad arfaethedig a leolir tua 12 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Gaerfyrddin, dwy filltir i'r dwyrain o bentref New Inn, dwy filltir i'r de-ddwyrain o Lanllwni, a dwy filltir i'r gogledd-orllewin o bentref Gwernogle.

Lleolir y safle ar Gyfeirnod Grid Cenedlaethol Prydain E251341, N236444. Gweler **Ffigur 1**.

**Ffigur 1 – Lleoliad y datblygiad arfaethedig**




Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer fferm wynt 21 tyrbin o'r enw Bryn Llewelyn ar y safle hwn yn 2010. Mae RES yn ystyried y safle o'r newydd, gyda'r bwriad o gynllunio datblygiad llai ar dir amaethyddol preifat a fydd yn manteisio ar gostau isel ac yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy heb effeithio'n ormodol ar yr ardal leol.

Ar hyn o bryd mae RES yn ymwneud â thechnolegau ynni adnewyddadwy amrywiol, gan gynnwys ynni gwynt ar y tir ac ynni'r haul, yn ogystal â mathau o dechnoleg alluogi fel storio ynni a rheoli'r galw.

Bydd ynni gwynt cynhenid ac adnewyddadwy yn gwneud cyfraniad hanfodol at fodloni angen y DU am system ynni diogel, digarbon ar gost isel i ddefnyddwyr. Byddai datblygu fferm wynt mewn lleoliad da yng Ngogledd Brechfa yn ased i'r ardal leol drwy fanteisio ar gyflymder rhagorol y gwynt i gynhyrchu trydan glân, adnewyddadwy.

Byddai cais cynllunio ar gyfer y datblygiad hwn yn dod o dan y gyfundrefn newydd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC), fel y'i cyflwynir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae rhagor o wybodaeth am y Gyfundrefn DAC ar gael yn **Adran 4**.

Bydd RES yn cyflwyno rhaglen newydd o ymgynghori â'r gymuned fel y nodir yn y ddogfen hon, gan gysylltu â rhanddeiliaid lleol i roi'r newyddion diweddaraf iddynt, a gofyn am eu mewnbwn a'u hadborth wrth i'r cynnig newydd gael ei ddatblygu.

## 3 Ymrwymiad i Ymgynghori

Mae RES wedi ymrwymo i gynnal deialog agored ac adeiladol â'r gymuned leol a rhanddeiliaid eraill, er mwyn sicrhau'r canlynol:

1. Cyflwynir gwybodaeth gywir am y cynnig mewn ffordd glir ac amserol;
2. Bydd digwyddiadau ymgynghori a digwyddiadau gwybodaeth yn cael eu hysbysebu'n dda, gan sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori;
3. Bydd pob un o'r rhanddeiliaid yn gallu gofyn cwestiynau i RES am y datblygiad arfaethedig ar unrhyw adeg;
4. Bydd RES yn ymateb i ymholiadau yn brydlon (bydd yn ymateb i gwestiynau cyffredinol ymhen pum diwrnod gwaith fel arfer);
5. Bydd cyfleoedd i randdeiliaid â buddiant gyflwyno sylwadau ar elfennau gwahanol o'r cynnig;
6. Bydd RES yn parchu'r holl safbwyntiau a fynegir, yn eu cofnodi a'u hystyried, lle bo hynny'n briodol, yn ystod datblygiad y prosiect;
7. Bydd RES yn cyflwyno Adroddiad Ymgynghori[1] cyn y cais gyda'r cais cynllunio i ddangos ymrwymiad y cwmni i ymgynghori â'r gymuned. Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cynnwys:
    - Gwybodaeth am yr ymgynghoriad statudol, cyhoeddusrwydd, a gweithgareddau ymgynghori (gan gynnwys digwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd a diwrnodau gwybodaeth);
    - Crynodeb o'r holl faterion a godwyd a sut y cawsant eu datrys o bosibl;
    - Manylion yr holl ymatebion a dderbyniwyd gan unigolion yr ymgynghorwyd â nhw, gan gynnwys copïau o ymatebion gan ymgyngoreion arbenigol[2], a'r ystyriaeth a roddwyd iddynt.

Drwy ei brosesau ymgysylltu, bydd cwmni RES yn ceisio trafod yr elfennau canlynol o'r cynnig â'r gymuned leol:

- Sut y dylai gwybodaeth am y datblygiad arfaethedig gael ei chyfleu i'r cyhoedd;
- Sut mae mewnbwn ac adborth yn cael eu casglu gan y gymuned leol;
- Cynllun y datblygiad arfaethedig;
- Pa effeithiau (cadarnhaol a negyddol) y gall y datblygiad arfaethedig eu cael ar bobl leol a'r amgylchedd lleol;
- Unrhyw fanteision cymunedol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig.

[1] Erthygl 11 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016
[2] Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau sydd ag arbenigedd penodol yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i'r cynnig, neu sefydliadau sy'n gyfrifol am y cyfryw faterion (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru).

## 4 Cyfundrefn Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)

**Cyflwyniad**

O fis Mawrth 2016 ymlaen, bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o seilwaith (Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, neu DAC) yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol. Arolygiaeth Gynllunio Cymru sy'n ymdrin â cheisiadau ar gyfer DAC ar ran Llywodraeth Cymru.

Math o gais cynllunio ar gyfer prosiect seilwaith mawr o bwysigrwydd cenedlaethol yw DAC, ac mae enghreifftiau'n cynnwys fferm wynt, gorsaf bŵer neu gronfa ddŵr. Mae'r drefn o benderfynu ar gais DAC yn wahanol i'r drefn ar gyfer cais cynllunio arferol. Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud y penderfyniad, ond yn hytrach mae Arolygydd Cynllunio yn cael ei benodi i ystyried y cais ar ran Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Mae'r Arolygydd Cynllunio yn gwneud argymhelliad i Weinidog Cymru wedyn ar sail manteision cynllunio a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Gweinidog yn penderfynu wedyn a yw am roi caniatâd ai peidio.

**Camau Allweddol Prosiect DAC**

Mae prosiect DAC yn cynnwys pedwar cam gwahanol, sy'n cael eu crynhoi yn **Ffigur 2**[3] (trosodd):

- Cam 1: Hysbysiad cyn ymgeisio
- Cam 2: Gwneud cais
- Cam 3: Archwiliad
- Cam 4: Penderfyniad

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae aelodau'r gymuned yn gallu cyfrannu at bob rhan o'r broses ar gael yn y ddogfen ganlynol – *Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol: Canllaw ar gyfer cymunedau* – sydd ar gael ar: http://gov.wales/docs/desh/publications/160229-dns-guide-for-communities-cy.pdf.

[3] Mae'r ffigur hwn yn dod o '*Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol: Canllaw ar gyfer Cymunedau, Yr Arolygiaeth Gynllunio, Chwefror 2016 (Tudalen 4)*'

## Ffigur 2 – Camau Allweddol y Broses DAC

**Ymgysylltiad ac ymgynghoriad cyn cyflwyno cais**

### Cam 1: Cyn Rhoi Hysbysiad

Mae'r datblygwr yn llunio syniadau ar gyfer y cynnig, yn cysylltu ag unigolion a grwpiau, yn trefnu digwyddiadau, ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion drafft er mwyn nodi materion a chyfnewid barn rhwng partïon â buddiant.
*Mae'r cam hwn yn wirfoddol. Mater i'r datblygwr yw penderfynu sut y maent yn ymgymryd â'r 'ymgysylltiad' cynnar hwn â chymunedau lleol.*

↓

Mae'r datblygwr yn hysbysu yr Arolygiaeth Gynllunio eu bod yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio.

↓

Ar ôl rhoi hysbysiad, rhaid i'r datblygwr **roi cyhoeddusrwydd i gynnig manwl y DAC**, ac ymgynghori â pherchenogion a meddianwyr, y Cyngor Cymuned a chyrff eraill, am gyfnod o **chwe wythnos**.

↓

*Rhaid i'r datblygwr arddangos hysbysiad safle ger y safle. Byddant yna yn paratoi Adroddiad Ymgynghori sy'n crynhoi sut yr ymgynghorwyd â'r gymuned a sut y dylanwadodd yr ymatebion ar y cais cynllunio.*

↓

**Gwneud Cais ac ymgynghoriad**

### Cam 2: Gwneud Cais

- Y datblygwr yn cyflwyno cais i'r Arolygiaeth Gynllunio gydag Adroddiad Ymgynghori.
- Arolygiaeth Gynllunio'n dilysu'r cais ac enwebir swyddog achos.
- Yr Awdurdod Cynllunio lleol yn arddangos hysbysiadau safle.
- Yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn paratoi Adroddiad ar yr Effaith ar y Gymuned.

↓

*Os yw'r holl ddogfennau angenrheidiol wedi'u cyflwyno, bydd Arolygiaeth Gynllunio'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais ac yn ysgrifennu at ymgynghoreion. Mae gan bobl **bum wythnos** i gyflwyno datganiadau neu wrthwynebiadau (a elwir yn 'sylwadau').*

↓

**Archwiliad a phenderfyniad**

### Cam 3: Archwiliad

- Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n penodi Arolygydd i 'archwilio'r' cais, gan gynnwys yr holl sylwadau.
- Mae gan yr ymgeisydd gyfle cyfyngedig i wneud mân newidiadau i'r cynllun
- Mae'r Arolygydd yn penderfynu â oes angen **gwrandawiad**, **ymchwiliad** neu **sylwadau ysgrifenedig** ychwanegol. Os felly, mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn gwahodd partïon â buddiant i gymryd rhan

↓

*Rhaid i'r Arolygydd a benodir ystyried yr holl sylwadau a gyflwynir. Mater i'r Arolygydd yw penderfynu a ddylid cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad.*

↓

### Cam 4: Penderfyniad


Ar ddiwedd yr archwiliad, mae'r Arolygydd yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Gweinidog Cymru yn argymell a ddylid rhoi caniatâd cynllunio neu ei wrthod. Wedyn, mae gan y Gweinidog 12 wythnos i wneud penderfyniad terfynol.

# 5 Ymgyngoreion

Mae RES yn awyddus i gynnal ymgynghoriad cynhwysol. Rydym yn cydnabod bod dau fath o ymgyngoreion yn eu hanfod: pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n ffermio ger y safle ac sydd â diddordeb uniongyrchol mewn effaith bosibl y datblygiad arfaethedig arnyn nhw (**prif ymgyngoreion**), a phobl sy'n byw yn yr ardal ehangach ac sydd â diddordeb posibl mewn ynni adnewyddadwy neu ddatblygiadau yn yr ardal (**ymgyngoreion eilaidd**).

Mae RES wedi ystyried y canllawiau yn *Atodiad 8: yr Adroddiad Ymgynghori*[4], *Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol: Canllaw ar gyfer Cymunedau*[5], a'r cyd-destun cymdeithasol a daearyddol ar gyfer Prosiect Ynni arfaethedig Gogledd Brechfa, er mwyn llunio 'Parth Ymgynghori' i nodi'r prif ymgyngoreion. Mae'r Parth Ymgynghori yn cynnwys y pentrefi agosaf i'r safle, ac yn ymarferol mae'n cynnwys pawb sy'n byw ac yn gweithio mewn radiws naw cilomedr (km) o ganol safle'r datblygiad arfaethedig. Gweler **Ffigur 3**.

**Ffigur 3 – Parth Ymgynghori**




[4] http://gov.wales/docs/desh/publications/160330-dns-appendix-8-the-consultation-report-cy.pdf
[5] http://gov.wales/docs/desh/publications/160229-dns-guide-for-communities-en.pdf

Mae’r Parth Ymgynghori yn cynnwys y trefi/pentrefi/pentrefannau canlynol:

- Llanybydder
- Llidiad-Nenog
- Rhydcymerau
- Gwernogle
- Abergorlech
- Brechfa
- Llanllawddog
- Alltwalis
- Dolgran
- Pencader
- Gwyddgrug
- New Inn
- Llanfihangel-ar-arth
- Llanllwni
- Abergiâr
- Maesycrugiau
- Capel Dewi

Yn ogystal â thrigolion lleol, busnesau lleol, sefydliadau a grwpiau cymunedol yn y Parth Ymgynghori, bydd y prif ymgyngoreion yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig yn y Parth Ymgynghori, gan gynnwys, ymysg eraill:

- Aelodau Cynulliad lleol a rhanbarthol;
- Yr Aelod Seneddol;
- Cynghorwyr Ward;
- Cynghorwyr Cymuned.

Bydd RES yn defnyddio’r dulliau canlynol i ymgynghori â phrif ymgyngoreion yn y Parth Ymgynghori:

- Post/cylchlythyron uniongyrchol i ddarparu gwybodaeth glir a chywir am y datblygiad arfaethedig;
- Post uniongyrchol i wahodd rhanddeiliaid i unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori/gwybodaeth gyhoeddus;
- Cynnig briffio cynrychiolwyr etholedig am y datblygiad arfaethedig.

Gan fod ymgyngoreion eilaidd wedi’u lleoli y tu allan i’r Parth Ymgynghori, ni fydd RES yn cysylltu â nhw’n uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth am y datblygiad arfaethedig ar gael i brif ymgyngoreion ac ymgyngoreion eilaidd drwy’r dulliau canlynol:

- Hysbysebu unrhyw ddigwyddiadau ymgynghori/gwybodaeth gyhoeddus mewn papurau newydd lleol;
- Sylw i’r datblygiad arfaethedig yn y cyfryngau lleol;
- Mynychu digwyddiadau ymgynghori/gwybodaeth gyhoeddus;

- Gwefan prosiect sy’n cynnwys gwybodaeth am y cynnydd diweddaraf (www.brechfanorth-energyproject.co.uk)
- Cysylltu â thîm y prosiect dros y ffôn neu drwy e-bost gan ddefnyddio’r manylion yn **Adran 7** o’r ddogfen hon.

# 6 Cynllun Ymgynghori

Mae Tabl 1 yn amlinellu prif gerrig milltir y rhaglen ymgynghori (cyn gwneud cais hyd at gyflwyno cais DAC) sy’n gysylltiedig â’r datblygiad arfaethedig. Bydd y wybodaeth yn y tabl hwn yn cael ei monitro’n rheolaidd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rhaglen y prosiect cyfan.

**Tabl 1 – Rhaglen ymgynghori**

| Cam | Amserlen Ddangosol | Dulliau Ymgynghori/Cyfathrebu | Cynulleidfaoedd |
|---|---|---|---|
| **Cyn gwneud cais** | Mawrth-Awst 2016 | **Cyfarfod un i un**<br>Trafod a chytuno sut y dylai RES ymgynghori â’r gymuned. | Yr ymgyngoreion canlynol:<br>• Yr Aelod Cynulliad lleol.<br>• Yr Aelod Seneddol.<br>• Cynghorwyr Ward a Chynghorau Cymuned wrth ymyl neu oddi mewn i ardal y datblygiad arfaethedig. |
| | Gorffennaf-Awst 2016 | **Manylion Cyswllt y Prosiect**<br>Manylion cyswllt penodol ar gyfer ymholiadau gan y gymuned. | Ar gael i’r holl ymgyngoreion drwy Wefan y Prosiect. |
| | Gorffennaf-Awst 2016 | **Gwefan y Prosiect – Tudalen Hysbysu**<br>Lansio tudalen hysbysu gwefan y prosiect a Dogfen Ymrwymiad i Ymgynghori â’r Gymuned: www.brechfanorth-energyproject.co.uk | Ar gael i’r holl ymgyngoreion. |
| | Gorffennaf-Awst 2016 | **Dogfen Cwmpasu Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol**<br>Cais Cwmpasu Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIA) i Arolygiaeth Gynllunio Cymru.<br>Bydd y ddogfen hon ar gael i’r holl ymgyngoreion drwy Wefan y Prosiect: www.brechfanorth-energyproject.co.uk a thrwy Wefan benodedig y Prosiect yr Arolygiaeth Gynllunio: (https://acp.planningportal.gov.uk/ViewCase.aspx?CaseId=3149642) | Bydd cais yn cael ei wneud i Arolygiaeth Gynllunio Cymru, a fydd yn gyfrifol am ddosbarthu’r ddogfen i restr benodol o ymgyngoreion statudol. |

| Cam | Amserlen Ddangosol | Dulliau Ymgynghori/Cyfathrebu | Cynulleidfaoedd |
|---|---|---|---|
| **Cyn gwneud cais (Parhad…)** | Medi-Hydref 2016 | **Post Uniongyrchol**<br>Cyflwyno'r datblygiad arfaethedig, manylion cyswllt penodol ar gyfer ymholiadau gan randdeiliaid, a gwahoddiad i ddigwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd. | Pob prif ymgynghorai:<br>• Pob cartref a busnes oddi mewn i'r Parth Ymgynghori;<br>• Yr Aelod Cynulliad lleol.<br>• Yr Aelod Seneddol.<br>• Cynghorwyr Ward a Chynghorau Cymuned wrth ymyl neu oddi mewn i ardal y datblygiad arfaethedig. |
| | Medi-Hydref 2016 | **Gwefan y Prosiect – Digwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd Arfaethedig**<br>Bydd tudalen hysbysu'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd. | Ar gael i'r holl ymgyngoreion. |
| | Medi-Hydref 2016 | **Hysbysebu Digwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd**<br>Yn y cyfryngau lleol ac ar fyrddau hysbysu cymunedol. | Ardal cylchrediad papurau newydd lleol / ardal ddarlledu'r cyfryngau lleol . |
| | Medi-Hydref 2016 | **Datganiad i'r wasg ar gyfer y cyfryngau lleol**<br>Yn cynnwys gwybodaeth am Ddigwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd. | Ardal cylchrediad papurau newydd lleol / ardal darlledu'r cyfryngau lleol. |
| | Medi-Hydref 2016 | **Mynychu Digwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd**<br>I'w cynnal mewn lleoliadau lleol yn y Parth Ymgynghori. Bydd y digwyddiadau yn darparu gwybodaeth am ddatblygiad y prosiect; cyfleoedd i roi adborth ar y wybodaeth a gyflwynwyd, a chyfleoedd i ofyn cwestiynau i aelodau tîm y prosiect. | Agored i'r holl ymgyngoreion a phawb â diddordeb. |

| Cam | Amserlen Ddangosol | Dulliau Ymgynghori/Cyfathrebu | Cynulleidfaoedd |
|---|---|---|---|
| | Medi-Hydref 2016 | **Gwefan y Prosiect – Gwybodaeth am Ddigwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd**<br>Bydd gwefan benodedig lawn y prosiect yn dod yn fyw ar ôl y digwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd. Bydd yr holl wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r digwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd ar gael ar y wefan. | Ar gael i'r holl ymgyngoreion. |
| **Cyn gwneud cais (Parhad...)** | Chwefror-Mawrth 2017 | **Gwefan y Prosiect – Hysbysiad DAC**<br>Cyflwyno hysbysiad am gais arfaethedig ar gyfer DAC i'r Arolygiaeth Gynllunio. Bydd y ffurflen gais ar gael i'r holl ymgyngoreion drwy Wefan y Prosiect: www.brechfanorth-energyproject.co.uk a thrwy Wefan benodedig y Prosiect yr Arolygiaeth Gynllunio: (https://acp.planningportal.gov.uk/ViewCase.aspx?CaseId=3149642) | Cyflwynir y cais i Arolygiaeth Gynllunio Cymru, a fydd yn gyfrifol am dderbyn neu wrthod cais yr hysbysiad ymhen 10 diwrnod. |
| | Chwefror-Mawrth 2017 | **Post Uniongyrchol**<br>Hysbysu ymgyngoreion bod yr Arolygiaeth Gynllunio wedi derbyn yr hysbysiad, a chamau nesaf Cyfundrefn DAC yn ymwneud â chyhoeddusrwydd ac ymgynghori.<br>Gwahoddiad i Ddigwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd. | Pob prif ymgynghorai:<br>• Pob cartref a busnes oddi mewn i'r Parth Ymgynghori;<br>• Yr Aelod Cynulliad lleol.<br>• Yr Aelod Seneddol.<br>• Cynghorwyr Ward a Chynghorau Cymuned wrth ymyl neu oddi mewn i ardal y datblygiad arfaethedig. |

| Cam | Amserlen Ddangosol | Dulliau Ymgynghori/Cyfathrebu | Cynulleidfaoedd |
|---|---|---|---|
| | Chwefror - Ebrill 2017 | **Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghori Cyn Gwneud Cais am DAC**<br>Sicrhau cyhoeddusrwydd ar gyfer y cais arfaethedig ar gyfer DAC, ac ymgynghori ar y cais, am 42 diwrnod o leiaf.<br>Byd pob dogfen a gyflwynir fel rhan o'r cais arfaethedig (gan gynnwys, ymysg eraill, copïau drafft o'r ffurflen gais, lluniadau/cynlluniau, datganiad cynllun a mynediad, a datganiad amgylcheddol) ar gael i'r holl ymgyngoreion drwy Wefan y Prosiect: www.brechfanorth-energyproject.co.uk. | Bydd angen i RES wneud y canlynol o leiaf:<br>• Ymgynghori ag ymgyngoreion cymunedol penodol, ymgyngoreion arbenigol ac unrhyw bersonau perthnasol (*yn unol â diffiniad Arolygiaeth Gynllunio Cymru - gweler Adran 4*).<br>• Cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i berchnogion neu feddianwyr tir wrth ymyl y safle;<br>• Arddangos hysbysiadau safle mewn un man o leiaf ar y safle neu ger y safle;<br>• Rhoi hysbysiad mewn papur newydd lleol. |
| **Cyn gwneud cais (Parhad...)** | Chwefror - Ebrill 2017 | **Gwefan y Prosiect - Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghori Cyn Gwneud Cais am DAC a Digwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd**<br>Bydd gwefan benodedig y prosiect yn cynnwys yr holl wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais arfaethedig ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori cyn gwneud cais.<br>Bydd y wefan benodedig yn cynnwys gwybodaeth am Ddigwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd arfaethedig. | Ar gael i'r holl ymgyngoreion. |
| | Chwefror - Ebrill 2017 | **Hysbysebu Digwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd**<br>Yn y cyfryngau lleol ac ar fyrddau hysbysu cymunedol. | Ardal cylchrediad papurau newydd lleol / ardal ddarlledu'r cyfryngau lleol. |
| | Chwefror - Ebrill 2017 | **Datganiad i'r wasg ar gyfer y cyfryngau lleol**<br>Yn cynnwys gwybodaeth am Ddigwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd. | Ardal cylchrediad papurau newydd lleol / ardal ddarlledu'r cyfryngau lleol. |

| Cam | Amserlen Ddangosol | Dulliau Ymgynghori/Cyfathrebu | Cynulleidfaoedd |
|---|---|---|---|
| | Chwefror-Ebrill 2017 | **Digwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd**<br>I'w cynnal mewn lleoliadau lleol oddi mewn i'r Parth Ymgynghori. Bydd y digwyddiadau yn darparu gwybodaeth am: y datblygiad arfaethedig, Cyfundrefn DAC – sut a phryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â'r cais, sut i roi adborth ar y wybodaeth a gyflwynwyd, a chyfle i ofyn cwestiynau i aelodau tîm y prosiect. | Agored i'r holl ymgyngoreion a phawb â diddordeb. |
| | Chwefror-Ebrill 2017 | **Gwefan y Prosiect**<br>Bydd y wefan benodedig yn cael ei diweddaru i gynnwys yr holl wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r Digwyddiadau Ymgynghori â'r Cyhoedd. | Ar gael i'r holl ymgyngoreion. |
| **Cyflwyno** | Mai-Mehefin 2017 | **Cyflwyno Cais DAC Dilys**<br>Yn dilyn cadarnhad bod Cais DAC dilys wedi'i gyflwyno, bydd yr holl ddogfennau ar gael ar ffurf electronig ac fel copïau caled (mewn lleoliadau penodol). | Ar gael i'r holl ymgyngoreion. |
| **Cyflwyno (Parhad...)** | Mai-Mehefin 2017 | **Post Uniongyrchol**<br>Hysbysu ymgyngoreion bod cais DAC dilys wedi'i gyflwyno i Arolygiaeth Gynllunio Cymru, a chamau nesaf Cyfundrefn DAC yn ymwneud â chyhoeddusrwydd ac ymgynghori. | Pob prif ymgynghorai:<br>• Pob cartref a busnes oddi mewn i'r Parth Ymgynghori;<br>• Yr Aelod Cynulliad lleol.<br>• Yr Aelod Seneddol.<br>• Cynghorwyr Ward a Chynghorau Cymuned wrth ymyl neu oddi mewn i ardal y datblygiad arfaethedig. |
| | Mai-Mehefin 2017 | **Datganiad i'r wasg ar gyfer y cyfryngau lleol**<br>Yn cadarnhau manylion y Cais DAC. | Ardal cylchrediad papurau newydd lleol / ardal ddarlledu'r cyfryngau lleol. |

| Cam | Amserlen Ddangosol | Dulliau Ymgynghori/Cyfathrebu | Cynulleidfaoedd |
|---|---|---|---|
| | Mai-Mehefin 2017 | **Gwefan y Prosiect**<br>Bydd y wefan benodedig yn cael ei diweddaru i gynnwys yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Cais DAC. | Ar gael i'r holl ymgyngoreion. |
| ***Ar ôl Cyflwyno Cais*** | *Mai-Mehefin 2017 Ymlaen* | ***Ymgysylltu Parhaus***<br>*Ar ôl i'r Cais DAC gael ei ddilysu, bydd RES yn parhau i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid gydol y cyfnod penderfynu ac ar ôl hynny. Bydd rhagor o wybodaeth am ymgysylltu ar ôl i'r cais DAC gael ei ddilysu yn cael ei chynnwys yn y ddogfen hon ar yr adeg briodol.* | |

# 7 Sut i Gysylltu â Chwmni RES a Thîm y Prosiect

Mae gan RES dîm prosiect dynodedig a fydd yn ymgymryd â'r gweithgareddau ymgynghori â'r gymuned sy'n cael eu disgrifio yn y ddogfen hon.

Mae cyfeiriad e-bost isod y prosiect wedi'i greu er mwyn i bobl anfon ymholiadau i Dîm Prosiect Ynni Gogledd Brechfa:

- **E-bost**: brechfanorth.energyproject@res-ltd.com

Fel arall, gallwch chi ddefnyddio'r dulliau canlynol i gysylltu â ni:

- **Ysgrifennu**: Prosiect Ynni Gogledd Brechfa, RES Cyf, Cedar House, Greenwood Close, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RD
- **Ffonio**: 02921 670377

Bydd RES yn ymateb i bob ymholiad yn brydlon (ymhen pum diwrnod gwaith fel arfer ar gyfer cwestiynau cyffredinol).